OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 172 (Cy. 34)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin, Penmaenmawr, Conwy)) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

*Gwnaed* — *24 Chwefror 2020*

*Yn dod i rym* — *1 Mawrth 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin, Penmaenmawr, Conwy)) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Mawrth 2020.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai'r gerbytffordd tua'r dwyrain neu'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

---

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**4.** Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

**5.** Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur sy'n cario llwyth lletach na 3.0 metr ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur drwy'r bylchau yn y llain ganol drwy droi i'r dde neu wneud troad pedol o un gerbytffordd i'r llall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50, 40, 30 neu 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 9 yn weithredol.

**11.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**12.** - (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**13.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 9 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Chwefror 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganol Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) i'r ddau gyfeiriad.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro**

Y darn o brif gerbytffordd (gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael) y gefnffordd sy'n ymestyn o ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) hyd at ganol Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan).

**ATODLEN 3**
**Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3.0 Metr Dros Dro**

Y darn o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) hyd at ganolbwynt Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

Y darnau cyfan o’r ffyrdd ymuno ac ymadael ar y ddwy gerbytffordd o drwyniad ffordd ymadael tua’r gorllewin Cyffordd 17 (Morfa Conwy) hyd at ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

## ATODLEN 4
## Gwahardd Troi i’r Dde/Troadau Pedol Dros Dro

Y darn o’r gefnffordd o ganol Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganol Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

## ATODLEN 5
## Cyfyngiadau cyflymder a dim goddiweddyd

Y darn o’r gefnffordd o ganol Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt) a Chyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) i’r ddau gyfeiriad gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael.